OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

1999 No. 3453

Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhestr Ardrethu Canolog (Cymru) 1999 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 1999.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "person dynodedig" mewn perthynas â rhestr ardrethu canolog i Gymru, a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny, yw person a ddynodwyd gan reoliad 3(1) o'r Rheoliadau hyn("designated person");

ystyr "rhestr ardrethu canolog" yw'r rhestr ardrethu annomestig canolog i Gymru ("central rating list").

(3) Cyfeiriad at hereditament annomestig perthnasol yw pob cyfeiriad at hereditament yn y Rheoliadau hyn.

(4) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at berson dynodedig wrth ei enw yn gyfeiriad at y cwmni neu'r corff a gofrestrwyd gan yr enw hwnnw, neu sy'n dwyn yr enw hwnnw, ar y dyddiad y cofnodwyd yr enw hwnnw ar y rhestr ardrethu canolog.

(5) Mae i unrhyw derm a ddefnyddir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu unrhyw Ran o'r Atodlen yr ystyr a briodolir iddo yn yr Atodlen honno neu'r Rhan honno.

Cymhwyso'r Rheoliadau

2. Bydd effaith i'r Rheoliadau hyn mewn perthynas ag unrhyw restr ardrethu canolog a luniwyd ar 1 Ebrill 2000 neu ar ôl hynny.

Dynodi personau a disgrifio hereditamentau

3.—(1) At ddibenion adran 53(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988—

(a) Dynoder yma drwy hyn y personau a enwir yn yr Atodlen; a

(b) Rhagnoder yma drwy hyn, mewn perthynas â phob un o'r personau hynny, ddisgrifiad o'r hereditament a roddir islaw enw'r person hwnnw yn yr Atodlen.

(2) Ni fydd Rheoliad 6 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Darpariaethau Amrywiol) 1989(**1**)(hereditamentau croesffiniol) yn gymwys i unrhyw hereditament sy'n dod o fewn unrhyw ddisgrifiad yn yr Atodlen.

Cynnwys y rhestr ardrethu canolog

4. Rhaid i'r rhestr ardrethu canolog ddangos, am bob dydd ym mhob blwyddyn y bydd y rhestr honno mewn grym—

(a) enw pob person a ddynodir gan reoliad 3; a

(**1**) O.S. 1989/1060.

(b) gyferbyn â phob enw, bob hereditament a leolir yng Nghymru a feddiennir ar y diwrnod dan sylw (neu, os nas meddiennir ef, a berchnogir) gan y person hwnnw, ac sy'n dod o fewn y disgrifiad a ragnodir mewn perthynas â'r person hwnnw gan y rheoliad hwnnw.

5.—(1) Yn ogystal, rhaid i'r rhestr ardrethu canolog ddangos, gyferbyn ag enw pob person dynodedig—

(a) os cwmni cofrestredig yw'r person, ei swyddfa gofrestredig, ac ym mhob achos arall ei brif le busnes o fewn y Deyrnas Unedig;

(b) os cwmni cofrestredig yw'r person, ei rif cofrestredig; ac

(c) y diwrnod cyntaf, os yw'n ddiweddarach na 1 Ebrill 2000, pan fydd effaith i'r gwerth ardrethol a ddangosir ar y rhestr wrth enw'r person dynodedig

(2) Yn ogystal, rhaid i'r rhestr ardrethu canolog ddangos, os bydd y rhestr wedi'i newid yn unol â chyfarwyddyd gan dribiwnlys, enw'r tribiwnlys a roddodd y cyfarwyddyd.

Hereditamentau Rheilffyrdd

6.—(1) Diwygier Rheoliad 3 o Reoliadau Ardrethu Annomestig (Rheilffyrdd, Telathrebu a Chamlesi) 1994(**2**) ynglŷn â Chymru fel a ganlyn.

(2) Hepgorer y diffiniad o "the British Railways Board" ym mharagraff (1).

(3) Yn lle paragraff (1)(b)(i) mewnosoder —

"(i) (a) where paragraph (3) applies, which are occupied by Railtrack plc, or by a licence exempt operator or a licence holder other than Railtrack plc, or

(b) where paragraph (5) or (6) applies, which are occupied by any person designated by regulation 5(1) of, and named in Part 4 of the Schedule to, the Central Rating Lists Regulations 1994,

and which are not situated on operational land of that occupier, or of another relevant person;".

(4) Ychwaneger ar ddiwedd paragraff (1) —

"and 'relevant person' means—

(i) any person designated and named as mentioned in sub-paragraph (b)(i) above, or

(ii) any licence exempt operator or licence holder which is not so designated".

(5) Hepgorer —

(a) paragraff (2),

(b) y geiriau '(other than the Board') ym mharagraff (3)(a)(ii), ac

(c) y geiriau o'r dechrau hyd at 'the Board and' ym mharagraff (4).

Diddymiadau ac eithriadau

7.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), diddymer drwy hyn ynglŷn â Chymru o 1 Ebrill 2000 ymlaen, y canlynol—

(a) Rheoliadau Rhestri Ardrethu Canolog 1994(**3**);

(b) Rheoliadau Rhestri Ardrethu Canolog (Diwygio) 1996(**4**).

(**2**) O.S. 1994/3123.
(**3**) O.S. 1994/3121.
(**4**) O.S. 1996/620.

(2) Bydd y darpariaethau a grybwyllir ym mharagraff (1) yn parhau i fod ag effaith ar 1 Ebrill 2000 ac ar ôl hynny at ddibenion y canlynol neu at ddibenion sy'n gysylltiedig â'r canlynol—

(a) unrhyw newid i'r rhestr sydd mewn grym yn union cyn 1 Ebrill 2000; neu

(b) unrhyw ddarpariaeth a wnaed gan reoliadau a wnaed o dan adran 58((**5**) o Ddeddf 1988 (darpariaeth arbennig ar gyfer 1995 ymlaen) sy'n ymwneud â'r swm sy'n daladwy mewn perthynas â hereditament am gyfnod perthnasol fel a ddiffinnir yn yr adran honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.(**6**)

Dafydd Elis Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

22 Rhagfyr 1999

(**5**) Diwygiwyd adran 58 gan baragraff 68 o Atodlen 13 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (p.14) a chan adran 2 o Ddeddf Ardrethu Annomestig 1994 (p.3).

(**6**) 1998 p.38.